# Pecyn Dogfennau

## PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS

## DYDD MERCHER 15EG MAI 2024

**YN BRESENNOL:** Yr Athro Ian Roffe (Aelod Annibynnol) (Cadeirydd)

**Aelodau o Gyngor Sir Caerfyrddin:**
K. Howell, K. Davies a D. Jones

**Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion:**
E. Evans, K. Evans a W. Thomas
**Aelodau o Gyngor Sir Penfro:**
J. Grimes a S. Hancock

**Aelodau o Gyngor Sir Powys:**
W. Powell a L. Rijenberg

**Aelod Annibynnol**
Mrs H.M. Thomas

**Yn bresennol o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu:**
Mr D. Llewelyn – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Mrs C. Morgans - Pennaeth y Staff
Mrs N. Davies - Prif Swyddog Cyllid Dros Dro

**Hefyd yn bresennol:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.30 yb - 11.45 yb**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSONOLDEB A MATERION PERSONOL

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd L. George.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

| Yr Aelod | Rhif yr Eitem ar yr Agenda | Buddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd S Hancock | Eitemau agenda 7,8 a 9 | Mae aelod o'r teulu yn gweithio fel Swyddog Heddlu yn Heddlu Dyfed-Powys. |
| Helen Thomas | Eitemau agenda 7, 8 a 9 | Mae aelod o'r teulu yn rhan o'r Grŵp Cyflog Byw |

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

## 3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 CHWEFROR 2024

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2024 gan eu bod yn gywir.**

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI)

Nid oedd dim materion yn codi o gofnodion y cyfarfod.

Bu i'r Cadeirydd, ar ran y Panel, longyfarch Mr Llewelyn ar gael ei ail-ethol yn ddiweddar fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddigwyddiad diweddar mewn ysgol yn Sir Gaerfyrddin a gofynnodd am ddiweddariad gan y Comisiynydd ar y digwyddiad hwnnw, ynghyd â'i farn am bresenoldeb yr heddlu mewn ysgolion yn y dyfodol yn yr ardal.

O ran y digwyddiad dan sylw, dywedodd y Comisiynydd na allai wneud sylw gan ei fod yn destun ymchwiliad parhaus gan yr heddlu. Rhoddodd sicrwydd i'r Panel y byddai Heddlu Dyfed-Powys yn parhau â'r rhaglen ysgolion yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddai'r fformat presennol yn cael ei adolygu a'i ddiwygio trwy weithio gydag ysgolion a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL HEDDLU A THROSEDDU

Ystyriodd y Panel Adroddiad Blynyddol 2023-2024 ar gyfer Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a gyhoeddwyd yn unol ag amodau'r grant oedd yn berthnasol i'r cyllid a dderbyniwyd gan y Swyddfa Gartref.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Robert Edgecombe am lunio'r adroddiad.

Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at gamgymeriad yn yr adroddiad o dan eitem 6 gan ddweud y dylai'r cyfeiriad a wnaed at gylch 5 mlynedd newydd fod wedi darllen cylch 4 blynedd.

**PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Blynyddol 2023-2024 ar gyfer Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.**

## 6. ADRODDIAD YR IS-GRWP PERFFORMIAD

Atgoffwyd y Panel fod ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2022-23 wedi gofyn i Is-grŵp o'r Panel graffu ar sut y cyflawnodd y Comisiynydd ei ddyletswydd statudol i gynnal heddlu effeithlon ac effeithiol. Yn unol â'r penderfyniad hwnnw, ystyriodd y Panel adroddiad, casgliadau ac argymhellion yr Is-grŵp, ac roedd yr argymhellion fel a ganlyn:

1. Bod y Panel yn parhau i graffu ar sut mae'r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif ynghylch materion llesiant staff yn ystod blwyddyn y cyngor 2024-2025 drwy fynd i gyfarfodydd y Bwrdd Atebolrwydd Plismona.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

2. Bod y Panel yn gofyn i'r Comisiynydd gyflwyno adroddiad yn un o gyfarfodydd y Panel yn ystod 2024/2025 a fanylai ar y camau a gymerwyd gan y Comisiynydd i sicrhau bod y materion a nodwyd yn adroddiad HMICFRS yn cael sylw ac ar y cynnydd a wnaed.

**PENDERFYNWYD nodi canfyddiadau'r Is-Grŵp.**

## 7. PENDERFYNIADAU A WNAED GAN Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU

[NODER: Bu i'r Cynghorydd S. Hancock a Mrs H.M. Thomas, a oedd wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, aros yn y cyfarfod gan gymryd rhan wrth i'r Pwyllgor ystyried yr eitem a phleidleisio arni.]

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad ynghylch y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd rhwng 8 Chwefror ac 11 Ebrill 2024.

Cyfeiriwyd at y penderfyniad ar y *Northwest Surveillance Situational Awareness System* ac at erthygl newyddion ddiweddar ar y defnydd o gamerâu adnabod wynebau yn Croydon. Cadarnhaodd y Comisiynydd nad oedd camerâu o'r fath yn cael eu defnyddio yn ardal Heddlu Dyfed-Powys.

O ran amcan 3 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol – "Cryfhau ein perthnasoedd trwy weithgareddau plismona ac ymgysylltu cymunedol rhagweithiol," cadarnhaodd y Comisiynydd ei fod yn ymdrechu i gael heddlu mwy gweladwy a hygyrch drwy'r 1308 o swyddogion oedd gan y llu, ac roedd adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar weithrediad y timau plismona bro i gyflawni'r nod hwnnw. Byddai'r Heddlu hefyd yn lansio ei Gynllun Cydraddoldeb yn ddiweddarach ym mis Mai 2024.

Gan gyfeirio at y taliad ewyllys da o £10,000 i bob un o'r 3 Awdurdod Lleol yn Nyfed-Powys, cadarnhaodd y Comisiynydd nad oedd unrhyw gafeatau ynghlwm wrth y taliad.

Cyfeiriwyd at y dyfarniadau tendr sengl yn yr adroddiad ac a ellid cynnwys y costau, er enghraifft y Tendr Adnabod Platiau Rhif Awtomatig, mewn adroddiad yn y dyfodol. Dywedodd y Comisiynydd y gellid edrych ar gynnwys hynny yn adroddiadau'r dyfodol i'r Panel.

Gan gyfeirio at gael Gwerth am Arian ar gyfer tendrau, dywedodd y Comisiynydd, ar gyfer contractau mawr e.e. prynu cerbydau'r heddlu, fod yr heddlu'n defnyddio fframwaith sefydliad *Blue Light Commercial* lle gellid cyflawni arbedion maint mawr. Ar gyfer contractau lleol mwy penodol, roedd gan yr heddlu bolisi caffael a oedd yn cynnwys mesurau priodol i sicrhau y ceid gwerth am arian.

Mewn ymateb i oedi cyn dechrau'r contract ar gyfer yr Ymgynghorydd Trais Rhywiol Unigol, dywedodd y Comisiynydd ei fod wedi cael ei ohirio tan yr hydref o achos materion yn ymwneud â'r broses Trosglwyddo Ymgymeriadau a Diogelu Cyflogaeth (TUPE). Cadarnhaodd y byddai'r contract newydd yn darparu buddion

ychwanegol i'r contract presennol, er enghraifft, darparu gwasanaethau ar gyfer plant sydd wedi dioddef yn sgil troseddau.

O ran ymestyn y cytundeb ar gyfer y Bartneriaeth Gan Bwyll, a'r adolygiad i'w gynnal ar gyflwyno'r terfynau cyflymder 20mya yng Nghymru, rhoddodd y Comisiynydd gyngor ar y pwysau ariannol oedd yn wynebu'r bartneriaeth a'r trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar ei grantiau. O ran adolygu'r terfyn 20mya, roedd prif swyddog arweiniol wedi'i benodi i lywio'r adolygiad o ymateb Heddluoedd Cymru a byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn un o gyfarfodydd y Panel yn y dyfodol.

Mewn perthynas â chwestiwn ar adroddiad diweddar a gyhoeddwyd ar Ddiogelwch Ffyrdd ym Mhowys, dywedodd y Comisiynydd, er nad oedd wedi darllen yr adroddiad eto, nad oedd y sefyllfa yn unigryw i Bowys. Fodd bynnag, byddai'n gosod eitem ynghylch hynny ar yr agenda ar gyfer cyfarfod o'r Panel yn y dyfodol.

O ran y penderfyniad i werthu Gorsaf Heddlu Doc Penfro a phrynu eiddo ar Stryd Argyle, dywedodd y Comisiynydd bod y penderfyniadau hynny wedi'u gwneud ar sail diogelu darpariaeth yr heddlu yn y dyfodol yn yr ardal a darparu cyfleusterau gweithio modern i swyddogion. Dywedodd ymhellach y byddai'r Heddlu'n adolygu ei strategaeth ystadau cyn bo hir.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## 8. PROTOCOL PLISMONA - ADRODDIAD PERFFORMIAD

[NODER: Bu i'r Cynghorydd S. Hancock a Mrs H.M. Thomas, a oedd wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, aros yn y cyfarfod gan gymryd rhan wrth i'r Pwyllgor ystyried yr eitem a phleidleisio arni.]

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad perfformiad mewn perthynas â'r Protocol Plismona ar gyfer Ch4 blwyddyn ariannol 2023-24. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â 50 o gamau a gyflwynwyd i fesur cydymffurfiaeth â'r pwerau a'r dyletswyddau a nodir yng Ngorchymyn Protocol Plismona 2011.

Cafodd y Comisiynydd a'i dîm eu llongyfarch gan y Panel ar yr hyn a gyflawnwyd o ran lleihau risgiau, gyda mwy o risgiau bellach yn cael eu categoreiddio fel 'Gwyrdd'.

O ran 'Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys', dywedodd y Comisiynydd bod y rheiny'n cael eu trafod mewn cyfarfodydd chwarterol o'r panel craffu i asesu achosion llys, a oedd, yn ei dro, yn adrodd iddo ef a'r Prif Gwnstabl.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 9. CYNLLUN BUSNES SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU - ADRODDIAD CYNNYDD

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

[NODER: Bu i'r Cynghorydd S. Hancock a Mrs. H. Thomas, a oedd wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, aros yn y cyfarfod gan gymryd rhan wrth i'r Pwyllgor ystyried yr eitem a phleidleisio arni.]

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad a oedd yn crynhoi'r cynnydd a wnaed gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn ystod Chwarter 4 2023/24 wrth gyflawni gofynion ei Gynllun Busnes. Rhoddwyd gwybod i Aelodau'r Panel fod y Cynllun Busnes yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a amlinellir yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu ar gyfer 2021/2025.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y 51 o gamau gweithredu, 4 ohonynt wedi'u categoreiddio fel statws coch, 26 yn statws oren a 21 yn statws gwyrdd. Nododd yr adroddiad fod penderfyniad wedi'i wneud i ohirio dau gam i'r Cynllun Busnes nesaf.

Cafodd y Panel hefyd i'w ystyried Gynllun Busnes 2024-25 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â darparu Canolfan i Fenywod, dywedodd y Comisiynydd mai peilot oedd yn cael ei sefydlu, yng Nghaerfyrddin i ddechrau, wedi'i ariannu gan ei swyddfa lle gallai menywod oedd mewn perygl o droseddu gael eu cyfeirio. Y gobaith oedd sefydlu canolfannau eraill ymhen amser hefyd. Dywedodd hefyd y gallai drefnu i'r Panel gael mwy o fanylion yn y dyfodol, ac, o bosibl, fynd ar ymweliad â'r ganolfan.

Cyfeiriwyd at y Ganolfan Atgyfeirio Trais Rhywiol yn Bow Street, Aberystwyth a dywedodd y Comisiynydd er bod cynlluniau hirdymor wedi bod i'w symud i leoliad mwy addas, nad oedd cyllid cyfalaf ar gael gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru ar ei rhaglen gyfalaf, ac roedd swyddog o Heddlu'r De yn arwain ar y trafodaethau hynny.

Mewn ymateb i gwestiwn o dan werth 2, cadarnhaodd y Comisiynydd y byddai'r adolygiad oedd yn cael ei gynnal o'r modd roedd yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif yn arwain at newidiadau i'r system bresennol. Cyfeiriodd ymhellach at rôl Byrddau Atebolrwydd yr Heddlu a dywedodd y byddent hwy hefyd yn destun adolygiad.

**PENDERFYNWYD**

**9.1 Nodi adroddiad cynnydd Cynllun Busnes Ch4 2023/24.**
**9.2 Nodi Cynllun Busnes 2024/25.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol